## Y PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

## ADRODDIAD I'R CYFARFOD LLAWN O DAN REOL SEFYDLOG 9.9

### Cyflwyniad

Hwn yw adroddiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, yn unol â Rheol Sefydlog 9.9. Mae'n crynhoi gweithgarwch y pwyllgor o'r cyfarfod agoriadol ar 15 Tachwedd 2000 hyd at gyfarfod olaf tymor y gwanwyn ar 4 Ebrill 2001. Yn ystod y cyfnod hwn, cyfarfu'r pwyllgor ddeuddeg o weithiau.

Yn sgil y Cytundeb Partneriaeth, derbyniodd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes gyfrifoldebau'r Pwyllgor Addysg Cyn 16 Oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar a'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed. Bellach mae'r ddau bwyllgor hyn wedi peidio â bod.

### Aelodaeth

Mae aelodaeth y pwyllgor wedi newid unwaith ers ei ethol gyntaf ar 9 Tachwedd 2000 – cymerodd Ms Eleanor Burnham le Ms Christine Humphreys ar 3 Ebrill 2001 a mynychu ei chyfarfod pwyllgor cyntaf y diwrnod canlynol.

| | | |
|---|---|---|
| Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth | Llafur |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru | Democratiaid Rhyddfrydol |
| Cynog Dafis (Cadeirydd) | Canolbarth a Gorllewin Cymru | Plaid Cymru |
| Jane Davidson (Gweinidog) | Pontypridd | Llafur |
| Janice Gregory | Ogwr | Llafur |
| Pauline Jarman | Canol De Cymru | Plaid Cymru |
| Gareth Jones | Conwy | Plaid Cymru |
| Huw Lewis | Merthyr Tudful a Rhymni | Llafur |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru | Ceidwadwyr |
| Alun Pugh | Gorllewin Clwyd | Llafur |

### Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc |
| Gareth Woodhead | Swyddog Cymorth |

### Cylch Gwaith

Mae gan y pwyllgor gylch gwaith eang sy'n seiliedig ar bortffolio'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, Ms Jane Davidson AC. Mae'r portffolio hwn yn cwmpasu addysg a dysgu gydol oes ac yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, y cwricwlwm cenedlaethol a chymwysterau, pob agwedd ar weinyddu a threfnu ysgolion, addysg bellach ac uwch, polisi cyflogaeth o'r ochr gyflenwi – gan gynnwys y Fargen Newydd – a gwaith y gwasanaeth cyflogaeth,

gwasanaethau gyrfaoedd a hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith.

**Dyletswyddau**

Mae'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn un o saith pwyllgor pwnc. Mae cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc wedi'u hamlinellu yn Rheol Sefydlog 9.7 ac mae'r rhain wedi'u nodi yn Atodiad 1.

**Egwyddorion Polisi**

Yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr 2001, gwnaeth y pwyllgor ystyried adolygu yr egwyddorion fframwaith ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru, a etifeddwyd oddi wrth y Pwyllgor Addysg Cyn 16 Oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar gynt. Ar ôl hynny, penderfynwyd nad oedd yr egwyddorion hyn yn angenrheidiol bellach, gan fod “Gwell Cymru” (cynllun strategol y Cynulliad Cenedlaethol) a "Rhoi Cymru'n Gyntaf: Partneriaeth ar gyfer Pobl Cymru” yn nodi'r fframwaith ar gyfer polisi addysg yng Nghymru yn ddigonol. Yn y gyntaf o'r dogfennau hyn, mae'r rhain wedi'u nodi yn yr adran “Gwell Cyfleoedd Dysgu” ac yn y llall maent wedi'u cynnwys yn yr adran “Addysg a Dysgu gydol oes”. Mae'r prif egwyddorion wedi'u hamlinellu isod ac mae'r mentrau wedi'u rhestru yn Atodiad 2.

*Ein blaenoriaeth fwyaf yw sicrhau bod addysg gydol oes o safon ar gael i holl bobl Cymru. Mae addysg yn rhyddhau doniau, yn ymestyn cyfle ac yn helpu i greu cyfoeth.*
*Byddwn yn sefydlu polisïau i gyflawni gwelliannau hirdymor cynaliadwy o ran ansawdd addysg yng Nghymru, gan anelu at adeiladu un o'r systemau addysg gorau yn y Byd.*

**Y Cynlluniau Statudol**

Cymerodd y pwyllgor i ystyriaeth gynlluniau statudol y Cynulliad Cenedlaethol ynghylch cysylltiadau â'r awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, a'r cynllun datblygu cynaliadwy.

**Dull Gweithio**

Cyfarfu'r pwyllgor yn rheolaidd, unwaith bob pythefnos yn ystod y tymor. Fel rheol, câi'r cyfarfodydd hyn eu cynnal yn Adeilad y Cynulliad ym Mae Caerdydd ac yr oeddent yn agored i'r cyhoedd. Er mwyn gwneud ei drafodion yn fwy hygyrch i bobl Cymru, cynhaliodd y pwyllgor gyfarfodydd yn Aberaeron ac ym Merthyr Tudful yn ystod hydref / gaeaf 2000.

**Adolygiadau Polisi**

Etifeddodd y pwyllgor yr adolygiadau polisi canlynol gan y ddau bwyllgor addysg blaenorol:

- Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Plant Teirblwydd;
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu mewn Addysg;
- Darparu Lleoedd mewn Ysgolion; ac

- Addysg Uwch yng Nghymru

***Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Plant Teirblwydd***

Mabwysiadodd y pwyllgor y cylch gwaith canlynol ar gyfer yr adolygiad:

- Ystyried y patrwm presennol ar gyfer addysg plant teirblwydd;
- Asesu a fyddai ymestyn y ddarpariaeth er lles plant o ran eu haddysg a'u datblygiad;
- Asesu costau ymestyn y ddarpariaeth, a fyddai'n faich ychwanegol ar yr awdurdodau lleol ac y byddai gofyn i'w cyllidebau ei adlewyrchu;
- Asesu effaith hyn ar allu grwpiau chwarae a darparwyr preifat i ddarparu gofal plant i blant sy'n iau nag oed addysg gorfodol;
- Gwneud argymhellion i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ar bolisi'r dyfodol.

Ar ôl cystadleuaeth agored, penododd panel trawsbleidiol o aelodau'r Pwyllgor Addysg Cyn 16 Oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar ar y pryd Mrs Margaret Hanney yn ymgynghorydd arbenigol iddynt.

Yn ei gyfarfod cyntaf, sefydlodd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes weithgor i gwblhau'r adroddiad ar y pwnc hwn. Yr oedd y gweithgor yn cynnwys Lorraine Barrett, Gareth Jones, Christine Humphreys a Jonathan Morgan.

Yn ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr 2000, cymeradwyodd y pwyllgor yr adroddiad. Yr oedd y pwyllgor yn teimlo bod anghenion y plentyn o'r pwys mwyaf ac y dylai'r egwyddor hon fod yn ganolog mewn unrhyw benderfyniadau a wneid gan y Cynulliad ar ôl hynny. Yr oedd prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:

- *Dylai'r Gweinidog gomisiynu arolwg o'r lefelau darpariaeth presennol ac amcangyfrifon ynghylch y galw yn y dyfodol. Byddai hyn yn sail i gynllunio anghenion o ran datblygu a goblygiadau o ran costau;*
- *Dylai'r Gweinidog ystyried sefydlu Panel Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar i'w chynghori ynghylch datblygu'r strategaeth a chynllun gweithredu ar gyfer y strategaeth;*
- *Dylid mabwysiadu'r model partneriaeth ar gyfer Addysg Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a rhoi cymorth i'r awdurdodau addysg lleol (AALl) i greu Canolfannau Blynyddoedd Cynnar integredig; a*
- *Dylai awdurdodau addysg lleol a Phartneriaethau Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant gyflwyno cynlluniau – gydag amcangyfrifon costau cysylltiedig – ar gyfer datblygu seilwaith, fel a nodwyd yn y model.*

At hynny, yr oedd llawer o argymhellion manwl yn ymwneud â materion staffio, hyfforddiant a chymwysterau, cwricwlwm, safonau darpariaeth ac arolygu, Anghenion Addysgol Arbennig ac addysg Gymraeg.

Ar 6 Mawrth 2001, cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad y pwyllgor – "Gosod y Sylfaen: Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar i Blant Teirblwydd" – i'r

Gweinidog a'r Cynulliad mewn cyfarfod llawn ac addawodd y Gweinidog ymateb yn ffurfiol maes o law.

***Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu mewn Addysg***

Mabwysiadodd y pwyllgor y cylch gwaith canlynol ar gyfer yr adolygiad:

**Cam 1**

Ymchwilio i ddatblygu'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu yng Nghymru gyda'r bwriad o:

- Arolygu'r cynnydd tuag at y nod o gysylltu pob ysgol â'r Grid erbyn 2002;
- Ystyried pa le sydd ar gyfer mwy o gydweithredu rhwng AALl wrth iddynt ddatblygu eu rhwydweithiau dysgu eu hunain gan ganolbwyntio'n arbennig ar gaffael ar y cyd; ac
- Ystyried yr angen am gyfarwyddyd arbenigol pellach ar gyfer AALl ynghylch yr atebion rhwydweithio mwyaf effeithiol ar gyfer ysgolion.

**Cam 2**

Adeiladu ar ddarganfyddion Cam 1 drwy wneud y canlynol:

- Archwilio rhinweddau datblygu Cytundeb Fframwaith Cenedlaethol i ategu caffael, er mwyn cyflawni arbedion maint;
- Ymchwilio i'r rhesymau pam nad yw'r gwasanaeth a reolir gan y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu yn bodloni anghenion AALl yng Nghymru ac archwilio gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW) ddulliau ar gyfer gwella hyn;
- Archwilio, gydag ADEW, ACCAC a rhai eraill â buddiant, a fyddai hi'n ymarferol sefydlu rhwydwaith TGCh cenedlaethol i Gymru, wedi'i leoli yn y sector cyhoeddus, a goblygiadau sefydlu rhwydwaith o'r fath o ran amser ac adnoddau;
- Archwilio dulliau ar gyfer sefydlu mwy o gydweithredu ar draws Cymru ym maes datblygu meddalwedd addysgol ddwyieithog sy'n ategu'r cwricwlwm cenedlaethol;
- Adolygiad o'r modd y cyflwynir hyfforddiant TGCh i athrawon yng Nghymru a'r cymorth sydd ar gael iddynt mewn cysylltiad â defnyddio TGCh i gyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol; ac
- Archwilio rhinweddau creu tîm i ddatblygu a chynnal gwefan y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu yng Nghymru, fel ei bod yn bodloni anghenion athrawon yng Nghymru.

Ar ôl cystadleuaeth agored, penododd panel trawsbleidiol o aelodau'r Pwyllgor Addysg Cyn 16 Oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar ar y pryd Mr Neil Harries yn ymgynghorydd arbenigol iddynt.

Yng nghyfarfod agoriadol y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, cafodd adroddiad drafft yr ymgynghorydd arbenigol ei ystyried a gofynnwyd i ddau

aelod o'r pwyllgor – Huw Lewis a Jonathan Morgan – gwblhau'r testun. Yn ei gyfarfod ar 17 Ionawr 2001, cymeradwyodd y pwyllgor yr adroddiad terfynol.

Wrth dderbyn yr argymhellion yn eu cyfanrwydd, argymhellodd y pwyllgor yn benodol y dylid mynd ati ar frys i sefydlu'r canlynol:

- *Panel ymgynghorol ar gyfer TGCh mewn ysgolion, gyda brîff datblygu manwl, tair blynedd ar gyfer TGCh mewn ysgolion yng Nghymru;*
- *Tasglu TGCh fel tîm hyd-braich i weithredu'r rhaglen ddatblygu dair blynedd ar gyfer TGCh mewn ysgolion; a*
- *Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu, Cymru, i ddarparu'r holl wasanaethau cwricwlwm priodol, wedi'u cynllunio a'u haddasu i fodloni anghenion ysgolion yng Nghymru, gan weithio drwy'r Gymraeg a'r Saesneg.*

Ar 13 Mawrth 2001, cyflwynodd y Cadeirydd, Huw Lewis a Jonathan Morgan adroddiad y pwyllgor – *"Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu mewn Addysg"* – i'r Gweinidog a'r Cynulliad mewn cyfarfod llawn ac addawodd y Gweinidog ymateb yn ffurfiol maes o law.

***Darparu Lleoedd Mewn Ysgolion***

Mabwysiadodd y pwyllgor y cylch gwaith canlynol ar gyfer yr adolygiad:

Edrych ar y ddarpariaeth lleoedd mewn ysgolion, yn arbennig lefel y lleoedd sydd heb eu llenwi, gyda'r bwriad o:

- Bennu'r lefel orau o leoedd sydd heb eu llenwi, gan ganiatáu ar gyfer hyblygrwydd;
- Sefydlu costau cadw lefelau lleoedd dros ben yn uwch na hyn; a
- Nodi'r hyn y mae angen i awdurdodau lleol ei wneud i reoli eu cyflenwadau o leoedd mewn ysgolion yn effeithiol.

Etifeddodd y pwyllgor yr adolygiad hwn gan y Pwyllgor Addysg Cyn 16 Oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar (sydd bellach wedi'i ddiddymu).

Yng nghyfarfod cyntaf y pwyllgor newydd, nodwyd bod yr adolygiad hwn yn fwy technegol ei naws na'r adolygiadau eraill a oedd ar y gweill. Cytunodd yr aelodau i ystyried yn ofalus sut y gellid mynd ati orau i fynd â'r adolygiad yn ei flaen, ar ôl clywed y sylwadau llafar.

Hyd yn hyn, mae'r pwyllgor wedi cynnal dau gyfarfod a oedd yn ymwneud â'r adolygiad hwn yn unig ac mae wedi derbyn sylwadau llafar gan y Comisiwn Archwilio, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas yr Ysgolion Bychain, Estyn, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Awdurdod Ysgolion Esgobaethol.

Mae'r Comisiwn Archwilio wedi cynnal arolwg mewn deg AALl yng Nghymru mewn perthynas â'r mater hwn ac mae i fod i gyflwyno ei adroddiad i'r Gweinidog yn y dyfodol agos. Bydd y pwyllgor yn cymryd yr adroddiad annibynnol hwn i ystyriaeth yn ei drafodaethau. Bydd y Cadeirydd yn

cyflwyno'r adroddiad terfynol i'r Cadeirydd yn y cyfarfod llawn ar 10 Gorffennaf.

### *Adolygiad o Addysg Uwch yng Nghymru*

Mabwysiadodd y pwyllgor y cylch gwaith canlynol ar gyfer yr adolygiad:

Dynodi gweledigaeth ar gyfer addysg uwch yng Nghymru a sut y dylai fodloni anghenion y wlad, a datblygu strategaeth hirdymor ar gyfer manteisio i'r eithaf ar gyfraniad y sector. Dylai'r astudiaeth gymryd i ystyriaeth y dimensiwn cenedlaethol, y dimensiwn Ewropeaidd a'r dimensiwn rhyngwladol ehangach sy'n rhan o hyn, ynghyd â'r gwahanol genadaethau addysgu, ymchwil, diwylliannol, galwedigaethol ac economaidd o fewn y sector. Dylai'r astudiaeth roi sylw i'r canlynol yn arbennig: -

- Amrediad y disgyblaethau a'r gweithgareddau o fewn addysg uwch;
- Y portffolio ymchwil a wneir o fewn y sector, a chyfanswm a phatrwm yr arian ymchwil a gafwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, gan Gynghorau Ymchwil ac o ffynonellau eraill;
- Cenhadaeth economaidd sefydliadau addysg uwch mewn cysylltiad â chreu cyfoeth a swyddi a manteisio masnachol ar wybodaeth;
- Y lle ar gyfer cydweithredu ac integreiddio o fewn y sector addysg uwch yn ogystal â phartneriaethau rhwng sefydliadau Addysg Uwch ac ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac eraill er mwyn codi safonau addysgu ac ymchwil yn barhaus;
- Cymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr a'i effeithiau ar faint a phatrwm recriwtio; a
- Phwerau statudol y Cynulliad ac unrhyw gyfyngiadau y byddant yn eu gosod ar ddatblygiad strategol addysg uwch yng Nghymru.

Dylai'r astudiaeth bolisi ddisgrifio'r cyfleoedd ar gyfer datblygu strategol, gwneud argymhellion ynghylch gweithredu a gosod targedau ar gyfer cyflawni, gyda golwg ar flaenoriaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd a chyfyngiadau ar adnoddau.

Etifeddodd y pwyllgor yr adolygiad hwn gan y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 (sydd bellach wedi'i ddiddymu). Ar ôl cystadleuaeth agored, penododd panel trawsbleidiol o aelodau'r pwyllgor yr Athro Les Hobson yn ymgynghorydd arbenigol iddynt.

Gyda chymorth yr ymgynghorydd arbenigol, nododd y pwyllgor y chwe phrif thema ganlynol: -

- Maint a Ffurf Addysg Uwch;
- Dysgu ac Addysgu;
- Adfywio Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol;
- Ymchwil;
- Ariannu; ac
- Atebolrwydd / Ansawdd

Ar ôl i'r chwe phrif thema a'u materion cysylltiedig gael eu nodi, cafodd holiaduron eu hanfon at amrywiaeth o gyrff yng Nghymru a'r tu allan i Gymru. Gwnaed yr ymgynghori rhwng 22 Medi ac 11 Tachwedd 2000, ac yn ystod y cyfnod hwnnw daeth dros 80 o ymatebion ysgrifenedig i law.
Yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr 2001, ystyriodd y pwyllgor ddadansoddiad rhagarweiniol o'r ymatebion hyn gan yr ymgynghorydd arbenigol. Daeth amrywiaeth eang o sylwadau manwl i law ynghylch y chwe phrif thema a materion cysylltiedig. Cafodd y sylwadau cyffredinol pwysicaf eu crynhoi fel a ganlyn: -

Mae Addysg Uwch (AU) yn farchnad fyd-eang anferth sy'n newid yn gyflym. Dyma rai o'r newidiadau mwyaf:

- *symud o farchnad fach, elitaidd i gyfranogiad torfol mewn AU;*
- *trefniadau cyllido myfyrwyr a'r ffordd y gwelir myfyrwyr fel defnyddwyr o ganlyniad i hynny;*
- *symud oddi wrth ffurfiau traddodiadol o gyflwyno gwybodaeth mewn ffordd oddefol i safbwynt sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr – a hynny'n cael ei hwyluso gan ddatblygiadau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu;*

- *darparwyr AU yn ymddangos ar ffurf cwmnïau-prifysgol a mudiadau preifat sy'n gwneud elw.*

Ar 5 Rhagfyr 2000, cyhoeddodd y Gweinidog ei bod wedi sefydlu Grŵp Ymchwilio – a'r Athro Teresa Rees yn gadeirydd arno – i gynnal adolygiad annibynnol o galedi ymhlith myfyrwyr. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r Grŵp Ymchwilio yn rhoi cyflwyniad i'r pwyllgor, fel rhan o'r adolygiad o Addysg Uwch. Nododd y Cadeirydd y cyhoeddiad gan y Gweinidog ond cynigiodd y dylai caledi ymhlith myfyrwyr aros o fewn cylch gwaith yr adolygiad o Addysg Uwch. Cymeradwywyd y cynnig hwn gan y pwyllgor.

Paratôdd y pwyllgor, gyda chymorth yr ymgynghorydd arbenigol, amserlen ar gyfer yr adolygiad Addysg Uwch, a oedd yn cwmpasu'r 12 mis o Dachwedd 2000 i Dachwedd 2001. Y bwriad oedd y byddai'r Cadeirydd yn cyflwyno adroddiad y pwyllgor i'r Cynulliad ar ddiwedd y 12 mis.

Yn ogystal â'r chwe phrif thema a nodwyd yn wreiddiol, mae'r pwyllgor wedi ychwanegu materion 'Trefn Llywodraeth' a 'Darpariaeth drwy'r Gymraeg'. Ar hyn o bryd, mae'r pwyllgor yn clywed tystiolaeth lafar a, hyd yn hyn, mae wedi cael cyflwyniadau ynghylch pedair o'r themâu allweddol gan nifer o gyfranddeiliaid – gan gynnwys academyddion hŷn yn cynrychioli trawstoriad eang o sefydliadau Addysg Uwch ym mhob rhan o Gymru, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr ac Awdurdod Datblygu Cymru.

Mae'r pwyllgor yn bwriadu ymweld â Gogledd Iwerddon a'r Alban ym mis Mehefin, er mwyn dysgu'r uniongyrchol am brofiadau'r gwledydd hynny o gyflwyno ac ariannu addysg uwch.

**Cyfrannu Pellach at Ddatblygu Polisi**

Yn ogystal â chynnal ei adolygiadau polisi ei hun, cyfrannodd y pwyllgor at y datblygiadau polisi canlynol a ddatblygir gan y Gweinidog a'i swyddogion:-

- Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GEST)
- Adroddiad Tasglu Sgiliau Cymru
- Prosiectau Peilot Anghenion Addysgol Arbennig

- Cyngor Dysgu Cyffredinol

Yn ei gyfarfod ar 4 Ebrill 2001, cytunodd y pwyllgor i gyfrannu at yr adolygiad o'r Gymraeg sydd i'w gynnal gan y Pwyllgor Diwylliant. Mae hyn wedi'i gynnwys yn y flaenraglen waith strategol, er bod y cylch gwaith a'r rhaglen i'w penderfynu maes o law.

**Craffu ar waith y Gweinidog**

Cyflwynodd y Gweinidog adroddiad i'r pwyllgor bob mis am fentrau polisi, ymgynghoriadau, gwariant a materion eraill. Trafodwyd y pynciau a oedd i'w cynnwys ym mhob adroddiad a chytunwyd arnynt ymlaen llaw gan y Cadeirydd a'r Gweinidog. Holodd y pwyllgor y Gweinidog am ei hadroddiad – am ryw 45 munud – a phan oedd angen, ceisiwyd eglurhad pellach ar faterion penodol. Drwy hyn, cyflawnodd y pwyllgor ei rwymedigaethau o dan Reol Sefydlog 9.7.

**Adolygiad o Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad**

Yn ei gyfarfod ar 21 Mawrth 2001, cafodd y pwyllgor gyflwyniad gan Ms Susan Lewis, Prif Arolygydd ei Mawrhydi ym maes Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, ynghylch ei hadroddiad blynyddol a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Yr oedd hwn yn cwmpasu'r cyfnod o Fedi 1999 tan Awst 2000 ac yn crynhoi'r brif dystiolaeth a gafwyd gan Estyn yn ystod ei arolygiadau ar leoliadau meithrin, ysgolion, colegau a chyrff eraill. Ar ôl ei chyflwyniad, atebodd y Prif Arolygydd gwestiynau gan y pwyllgor am ddarganfyddion yr adroddiad a goblygiadau o ran polisi o ganlyniad i hynny. Nid yw Estyn yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ond mae'n gweithio'n agos gyda'r Cynulliad i ddarparu tystiolaeth yn sail ar gyfer datblygu a monitro polisïau addysg. Gan hynny, mae'r pwyllgor yn ymddiddori'n fawr yng ngwaith Estyn.

Mae ACCAC (Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru), ac ELWa (Cyngor Cenedlaethol newydd Cymru dros Addysg a Hyfforddiant) i fod i ymddangos gerbron y pwyllgor yn ddiweddarach eleni.

**Deddfwriaeth**

Yn ystod y cyfnod adrodd, ni chafodd y pwyllgor ei wahodd i graffu ar unrhyw ddeddfwriaeth ddrafft yn unol â Rheol Sefydlog 22.

**Cyllideb**

Yng nghyfarfod agoriadol y pwyllgor, amlinellodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes y Gyllideb Ddrafft ar gyfer y tair blynedd 2001 tan 2004, fel y'i cyflwynwyd gan y Gweinidog dros Gyllid a Chymunedau. Yr oedd y Gweinidog yn falch o etifeddu cyllideb gadarnhaol a oedd yn cynyddu adnoddau ym maes addysg a hyfforddiant yn sylweddol yn ystod y cyfnod tair blynedd. Yr oedd y pwyllgor yn fodlon ar y gyllideb arfaethedig, a hynny'n amodol ar eglurhad pellach ar y canlynol: -

- Sut y cafodd yr arian ychwanegol sydd ar gael i addysg ei gyfrif;

- Dadansoddiad o ariannu Addysg Uwch yng Nghymru, Lloegr a'r Alban; a
- Rheoli perfformiad ar gyfer athrawon.

**Cwynion**

Ni chyfeiriwyd unrhyw gwynion i'r pwyllgor o dan y weithdrefn a amlinellir yn Rheol Sefydlog 21.

**Penodiadau Cyhoeddus**

Yn ei gyfarfod ar 29 Tachwedd 2000, enwebodd y pwyllgor Jane Davidson, Cynog Dafis a Lorraine Barrett yn gynrychiolwyr iddo ar y Panel Penodiadau Cyhoeddus. Yr oedd gan yr aelodau hyn, naill ai'n unigol neu ar y cyd, ran mewn penodiadau i'r cyrff canlynol: -

- Cyngor Celfyddydau Cymru;
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch;
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg;
- Gwasanaeth Gwybodaeth a Llyfrgelloedd;
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru;
- Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru;
- Cyngor Chwaraeon Cymru;
- Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru;
- Y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant (ELWa); a
- Tasglu y Fargen Newydd yng Nghymru

**Blaenraglen**

Mae Rheol Sefydlog 9.9 yn ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgor pwnc gynnal rhaglen dreigl o waith yn cwmpasu cyfnodau o ddeuddeng mis o leiaf. Yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr 2001, cymeradwyodd y pwyllgor y rhaglen waith strategol ac anfonwyd copïau ohoni i Gadeiryddion y pwyllgorau pwnc eraill. Mae wedi ei diwygio fel ei bod yn cynnwys adolygiad o agweddau addysgol ar y Gymraeg, a fydd yn rhan o adolygiad y Pwyllgor Diwylliant o'r mater hwn.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

**Atodiad 1**

**Dyletswyddau Pwyllgorau Pwnc (Rheol Sefydlog 9.7)**

9.7 Bydd pob pwyllgor pwnc

- yn cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol yn atebol i'r Cynulliad amdanynt;
- yn cadw llygad ar y gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu; a
- yn cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

O fewn y meysydd perthnasol, bydd pob pwyllgor pwnc hefyd:

- yn cynghori ar ddeddfwriaeth arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan reol sefydlog 22;
- yn rhoi cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â rheol sefydlog 19;
- yn cyflawni ei swyddogaethau o dan reol sefydlog 21 (cwynion);
- yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a neilltuir iddo o dan y Cod Ymarfer ar Weithdrefn Penodiadau Cyhoeddus a wneir gan y Cynulliad o dan reol sefydlog 21; a
- yn ystyried materion y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio ato o fewn ei feysydd.

**Atodiad 2**

**Mentrau Polisi (Y Cytundeb Partneriaeth)**

1. *Byddwn yn uno Addysg cyn ac ôl 16 o dan un Pwyllgor yn y Cynulliad a chydag un Ysgrifennydd Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.*
2. *Byddwn yn gweithio i ddarparu addysg feithrin ar gyfer pob plentyn o 3 oed ymlaen, lle mae eu rhieni yn dymuno hynny, gan ddatblygu cynigion yn 2001/2002, gyda'r bwriad o weithredu o 2002/2003 ymlaen. Byddwn yn sicrhau bod rôl mudiadau gwirfoddol, megis yr ysgolion meithrin cyfrwng Cymraeg, yn cael ei pharchu.*
3. *Byddwn yn recriwtio mwy o athrawon er mwyn lleihau maint dosbarthiadau i blant wyth, naw, deg ac un ar ddeg oed. Fel cam cyntaf, byddwn yn darparu £65m ychwanegol (ar ben y cynlluniau presennol) dros y tair blynedd nesaf i recriwtio'r athrawon ychwanegol hyn, gan gynnwys £20m ychwanegol yn 2001/02 a fyddai, er enghraifft, yn ein galluogi i recriwtio hyd at 700 o athrawon ychwanegol. Bydd hyn yn ehangu'r gostyngiad ym maint dosbarthiadau i blant pump, chwech a saith oed i 30 neu lai, gyda'r bwriad o gyrraedd y targed o leihau maint pob dosbarth ysgol gynradd i 25 neu lai o fewn ail dymor y Cynulliad Cenedlaethol.*
4. *Bydd yn ariannu grantiau hyfforddi i athrawon cynradd newydd yn llawn drwy gynyddu cyfanswm y gyllideb hyfforddi i £8m yn 2001/2002 a £12m 2002/2003.*
5. *Byddwn yn darparu £200m dros y tair blynedd nesaf i'w fuddsoddi i wella adeiladau ysgol drwy "Gronfa Gwella Adeiladau Ysgol" er mwyn dechrau ar y dasg y mae dirfawr angen amdani o leihau'r gwaith atgyweirio ysgolion sydd wedi cronni yng Nghymru. Yn arbennig, rydym yn addo cael gwared yn raddol â phob ystafell ddosbarth symudol is-safonol fel rhan o'n hymgyrch i wella adeiladau ysgol yng Nghymru hyd at safon sy'n gweddu i'r $21^{ain}$ ganrif.*
6. *Cydnabyddwn y rôl holl bwysig a chwaraeir gan ysgolion yn natblygiad plentyn o safbwynt maeth. Cydnabyddwn hefyd y cyswllt rhwng deiet cytbwys a'r gallu i ddysgu. Byddwn felly yn rhoi strategaeth gynhwysfawr ar waith i ymestyn y ddarpariaeth brecwast mewn ysgolion a'r cynllun siop ffrwythau (sy'n bodoli'n barod) i ysgolion yng Nghymru. Fel rhan o'n hymrwymiad ehangach i ddatblygiad maethol, ac yn amodol ar gadarnhad cyfreithiol, byddwn yn ailgyflwyno llaeth ysgol am ddim i bob disgybl yng nghyfnod allweddol un o Ionawr 2001, gan ddarparu £1.3m yn y gyllideb yn syth.*
7. *Byddwn yn sefydlu polisi ar ysgolion gwledig a fwriedir i annog ffederasiynau; rhwydweithiau TG a dulliau cefnogi eraill ar gyfer ysgolion llai.*
8. *Byddwn yn darparu cyfeiriad e-bost ar gyfer pob disgybl ysgol yng Nghymru erbyn Gorffennaf 2001, fel rhan o'n haddewid i sicrhau bod pob plentyn sy'n gadael yr ysgol yng Nghymru yn gallu defnyddio cyfrifiadur.*
9. *Gan weithio gyda Llywodraeth y DU, byddwn yn ceisio gwella cyflog ac amodau athrawon er mwyn denu a chadw athrawon da yn y proffesiwn.*

*Byddwn yn llunio gwell Cynllun Cyflog ar sail Rheoli Perfformiad ar gyfer athrawon, a hwnnw wedi ei wahanu oddi wrth berfformiad disgyblion mewn arholiadau. Byddwn yn rhyddhau amser athrawon i ddysgu, drwy leihau baich y gwaith papur.*

10. *Byddwn yn treialu cymhwyster newydd – Bagloriaeth Gymreig, a fydd yn rhoi'r un gydnabyddiaeth i gymwysterau academaidd a galwedigaethol – fel gwelliant posibl i'r system arholi ôl-16. Yn y lle cyntaf, byddwn yn sicrhau bod enwau'r myfyrwyr hynny sy'n astudio ar gyfer y cymhwyster newydd yn cael eu cynnig drwy'r Fagloriaeth Ryngwladol, er mwyn diogelu eu sefyllfa mewn marchnad gymwysterau sy'n datblygu ar hyn o bryd.*
11. *Byddwn yn sefydlu dyfodol cryf i brifysgolion Cymru drwy lunio strategaeth ddatblygu ac ehangu ddeng mlynedd a gyllidir yn ddigonol. Byddwn yn annog y prifysgolion i feithrin entrepreneuriaeth yng Nghymru.*
12. *Rydym yn ymrwymo i ddarparu mwy o gyllid i fynd i'r afael â thlodi ymysg myfyrwyr yng Nghymru. Fel cam cyntaf, byddwn yn cynyddu'r swm o arian sydd ar gael ar gyfer cronfeydd mynediad i £11.5 miliwn o leiaf yn y flwyddyn i ddod. Mae hyn yn gynnydd cychwynnol o 15%.*
13. *Ar yr un pryd, byddwn yn sefydlu ymchwiliad annibynnol ar unwaith i fater caledi ymysg myfyrwyr a chyllido yng Nghymru, gan ddelio â'r materion hynny yr ymdrinnir â nhw yn 'Adroddiad Cubie' yn yr Alban sy'n dod o fewn cylch gwaith y Cynulliad. Bydd yr ymchwiliad yn adrodd ar yr opsiynau er mynd i'r afael â phroblemau sydd ymhlyg yn y system gyfredol o gynhaliaeth a chefnogaeth i fyfyrwyr gan gynnwys y problemau a wynebir gan fyfyrwyr aeddfed a'r rheini sy'n astudio ar sail ran amser. Bydd yr ymchwiliad yn ymdrin â'r materion hyn yng nghyd-destun yr angen i ehangu cyfranogiad mewn Addysg Uwch ac Addysg Bellach, yn enwedig ymysg grwpiau na cheir cynrychiolaeth ddigonol o'u plith yn y sectorau ar hyn o bryd. Bydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau erbyn gwanwyn 2001.*

    *Mae'r cytundeb hwn yn rhwymo'r llywodraeth bartneriaeth i gyflwyno argymhellion yr Adroddiad gerbron y Cynulliad ac i ddarparu arian digonol i gyllido rhoi'r canlyniadau ar waith yn llawn o Fedi 2001.*
14. *Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod anghenion addysgol ceiswyr lloches yn cael y sylw gofynnol ac y sicrheir adnoddau digonol i ddiwallu'r anghenion hyn.*